ESGOBAETH TYDDEWI
MENTRO MEWN CENHADAETH

ST DAVIDS DIOCESE
VENTURING IN MISSION

CYNHADLEDD ESGOBAETH TYDDEWI

Dydd Sadwrn 1af Hydref 2011

Rydym wedi ein cyfarwyddo i gynnull Cyfarfod Blynyddol
Cynhadledd Esgobaeth Tyddewi ym Mhrifysgol Cymru,
Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan
Dydd Sadwrn 1af Hydref 2011.

Bydd y Gynhadledd yn cychwyn am 10.00 a.m. bydd coffi ar gael oddwrth 9.15 a.m.

Mae'r Agenda I'w gweld dros y dudalen, ynghyd ag adroddiadau Pwyllgorau'r Esgobaeth.

Dewch â'r adroddiad hwn gyda chi I'r Gynhadledd



YSGRIFENYDDION: PAUL MACKNESS; V A HOCKEY MEDI 2011

RHAGLEN

9.15am **Coffi**

10.00am **Croeso – Yr Esgob**

10.05am **Yr Esgob Michael Doe – Pum Marc Cenhadaeth**

11.00am **Coffi**

11.30am **Ordinandiaid a'r Pum Marc Cenhadaeth**

Hanner dydd **Anerchiad y Llywydd**

12.45pm **Cinio**

1.45pm **Cychwyn y Busnes Ffurfiol**

1 Ymddiheuriadau
2 Cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar 2 Hydref 2010
3 Adroddiad Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth
4 Derbyn gweddill Adroddiadau'r Gynhadledd dan:
- Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog
- Adroddiad y Bwrdd Enwebu
- Adroddiad Bwrdd Persondai'r Esgobaeth
- Pwyllgor Eglwysi a Bugeiliol
- Cyngor y Genhadaeth a'r Weinidogaeth:
  - Tîm Plant
  - Tîm Cyfathrebu
  - Tîm Addysg
  - Tîm y Weinidogaeth
  - Tîm Cyfrifoldeb Cymdeithasol
  - Tîm Ieuenctid
  - Swyddog Rhyng-ffydd
  - Tîm Cenhadaeth Byd ac Eciwmeniaeth
- Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth
- Cyfeillion Cadeirlan Tyddewi
- Cymdeithas Dai
- Undeb y Mamau

5 Cyfansoddiadol cywiriadau – gweld dogfennu ar wahân

3.15pm **Addoliad Cau**

4.00pm **Diwedd y Gynhadledd**

COFNODION CYNHADLEDD ESGOBAETH TYDDEWI
A GYNHALIWYD YM MHRIFYSGOL CYMRU, Y DRINDOD DEWI SANT,
LLANBEDR PONT STEFFAN
DDYDD SADWRN 2 HYDREF 2010

Estynnodd y Llywydd, y Gwir Barchg J Wyn Evans, Arglwydd Esgob Tyddewi, groeso i'r aelodau. Yn dilyn addoliad a choffi, cafodd sesiwn y bore ei harwain gan Dîm Addysg yr Esgobaeth.

Rhoddwyd cyflwyniad oedd yn cynnwys:

- Ysgolion Eglwysig a'u lle yn yr Esgobaeth
- Hynodrwydd Ysgol Eglwysig (gydag ysgolion St Aidan, Penboyr a Model VA)
- Sylwedd yr Adroddiad Taleithiol ar Addysg
- Goblygiadau'r Adroddiad Taleithiol

Cychwynnodd Busnes Ffurfiol y Gynhadledd ar ôl cinio.

Cafwyd cyflwyniad am Gerdded Tyddewi dan arweiniad y Parchg Peter Adams a'r Parchg Ganon Stuart Bell

1 Ymddiheuriadau
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan 30 o glerigwyr a 29 o aelodau lleyg.

2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf
Cafodd Cofnodion y Gynhadledd a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2009 eu cynnig gan Yr Hybarch Ddr William Strange a'u heilio gan Mr M Presdee Jones. Cafodd y cofnodion eu cadarnhau a'u llofnodi.

3 Adroddiad y Bwrdd Cyllid
Cafodd Adroddiad Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth ei gyflwyno gan Mr M Presdee Jones (Cadeirydd) ac adroddodd fod bwrdd newydd a chyfarwyddwyr/Pwyllgor Gweithredol newydd yn eu lle bellach. Diolchodd i Staff yr Esgobaeth am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf a diolchodd i'r cyn Bwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd. Diolchodd hefyd i Mr P G V Campbell oedd wedi gweithredu fel Is Gadeirydd ac fel Cadeirydd y Bwrdd Persondai.

Adroddwyd y byddai'r cynnydd yng nghyfradd y weinidogaeth yng Nghyllideb yr Esgobaeth am 2011 yn 0.65%.

Siaradodd Mrs V A Hockey, Ysgrifennydd yr Esgobaeth ac Ysgrifennydd Lleyg y Gynhadledd, yn gryno am newidiadau arfaethedig i fformiwla Cyfradd y Weinidogaeth. Adroddwyd y byddai proses ymgynghori'n digwydd ledled yr Esgobaeth.

Cynigiodd Mr M Presdee Jones, gyda Mr P G V Campbell yn eilio, bod Cyfrifon Cryno Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth, heb eu harchwilio, am 2011 yn cael eu derbyn. Cafodd hyn ei basio.

4 Adroddiadau Pwyllgorau
Cafodd adroddiadau'r Pwyllgorau isod eu cyflwyno'n ffurfiol gan y Llywydd a'u derbyn:

Pwyllgor Sefydlog
Bwrdd Persondai
Amddiffyn Plant a Diogelu Oedolion Hawdd eu Niweidio
Pwyllgor Eglwysi a Bugeiliol
Tîm Plant

Tîm Cyfathrebu
Tîm Addysg yr Esgobaeth
Tîm y Weinidogaeth
Cyngor Cyfrifoldeb Cymdeithasol yr Esgobaeth
Pwyllgor Ieuenctid yr Esgobaeth (Tîm)
Tîm Stiwardiaeth Ariannol
Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth
Cyfeillion Cadeirlan Tyddewi
Cymdeithas Dai
Undeb y Mamau

Cafodd argymhellion y Pwyllgor Sefydlog, a gynigiwyd gan y Llywydd a'u heilio gan yr Ysgrifennydd Clerigol Dros Dro, eu cymeradwyo gan y gynhadledd.

Cyhoeddodd Archddiacon Tyddewi fod lle gwag i berson lleyg o Archddiaconiaeth Tyddewi i wasanaethu ar Bwyllgor yr Eglwysi a Bugeiliol.

5 Anerchiad y Llywydd

Rhoddodd y Llywydd anerchiad i'r Gynhadledd ar y thema *Rhwng Gobaith a Hanes.*

Daeth y busnes ffurfiol i ben am 3.05pm

Diolchodd y Llywydd i'r canlynol:

- Canon Dennis Wight a'i dîm am yr addoliad
- Tîm Ysgolion Eglwysig ac Addysg am eu cyfraniad i sesiwn y bore.
- Staff Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant am eu cymorth technegol, eu trefniadau a'u harlwyo.
- Tudor y cyfieithydd
- Mr M Presdee Jones Mr M Presdee Jones
- Y Cyd Ysgrifenyddion a staff yr Esgobaeth am drefniadau'r Gynhadledd

Yn olaf, diolchodd y Llywydd i'r Hybarch Ddr J I Holdsworth, Archddiacon Tyddewi am ei saith mlynedd a hanner o wasanaeth i'r Esgobaeth a dymunodd yn dda iddo yn ei swydd newydd fel Archddiacon Cyprus a'r Gwlff.

Daeth y Gynhadledd i ben gydag addoliad.

Y PWYLLGOR SEFYDLOG

Adeg paratoi'r adroddiad hwn roedd y Pwyllgor Sefydlog wedi cwrdd dair gwaith ers Cynhadledd yr Esgobaeth y llynedd, sef ym mis Rhagfyr 2010, ac ym misoedd Mawrth a Mehefin 2011.

Yn dilyn ymddiswyddiad y Parchg Ganon Aled Griffiths fel Ysgrifennydd Clerigol, cafodd y Parchg FM Paul Mackness ei benodi i'r swydd honno.

Wrth ystyried Cynhadledd 2011 cytunwyd i fabwysiadu fformat Cynhadledd 2010 ac i gynnal y gynhadledd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan ddydd Sadwrn 1af Hydref. Cytunwyd ymhellach y dylid cynnal dathliad o'r Ewcharist fel rhan o'r addoliad.

Etholwyd yr Is-Bwyllgorau isod a chafodd cyfrifoldebau eu dirprwyo yn unol ag Atodiad I o Gyfansoddiad Cynhadledd yr Esgobaeth:

- Is-bwyllgor Busnes

Dan gadeiryddiaeth Archddiacon Caerfyrddin (wedi'i ddirprwyo gan yr Arglwydd Esgob)

- Is-bwyllgor Penodiadau ac Enwebiadau
  Dan gadeiryddiaeth y Deon
- Is-bwyllgor Cyfansoddiad a Strwythurau
  Dan gadeiryddiaeth y Parchg Ganon Michael Butler
- Is-bwyllgor Addoliad y Gynhadledd
  Dan gadeiryddiaeth y Parchg Ganon Dennis Wight (Cydlynydd Addoliad y Gynhadledd)

Mae'r Pwyllgor Sefydlog wedi gweithredu Cyfansoddiad newydd Cynhadledd yr Esgobaeth. Yn dilyn adolygiad y Cyfansoddiad Taleithiol bydd rhaid newid cyfansoddiad Cynhadledd yr Esgobaeth er mwyn sicrhau bod y cyfeiriadau cywir yn cael eu cynnwys. Bydd y Pwyllgor Sefydlog hefyd yn dod â diwygiadau i gynnwys ethol aelodau i Dribiwnlys Disgyblu'r Eglwys yng Nghymru, materion etholiadol a chynnwys Atodiadau II a III.

Mae'r Pwyllgor Sefydlog yn awr yn derbyn pob adroddiad yng nghyfarfod mis Mehefin; rhoddir y cyfle i aelodau holi'r Swyddog/ Cadeirydd / Ysgrifennydd priodol ac i wneud diwygiadau ac ychwanegiadau i adroddiadau.

Drwy'r Is-Bwyllgor Penodiadau ac Enwebiadau, enwebodd y Pwyllgor Sefydlog dri enw i Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth i fod yn gyfarwyddwyr lleyg potensial i'r Bwrdd Cyllid.

Yn unol â'r pwerau a ddatganolwyd iddo, cytunodd y Pwyllgor Sefydlog i gydweithredu gyda'r Esgob yn yr ail-grwpio canlynol:

- Bod Plwyf Meline'n cael ei gyfuno gyda bywoliaeth Llandudoch gyda Threwyddel ac Eglwys Wythwr ac y bydd y fywoliaeth gaiff ei ffurfio felly yn cael ei galw'n Llandudoch gyda Threwyddel ac Eglwys Wythwr gyda Meline
- Bod Plwyf Uzmaston a Phlwyf cyfunol Llanhuadain gyda Threfelen a Llancefyn yn cael eu cyfuno i ffurfio Plwyf Cyfunol Llanhuadain gyda Threfelen a Llancefyn.
- Bydd Plwyfi Dalau a Saint-Y-Brid gyda Marloes yn cael eu cyfuno gyda Phlwyfi Herbranston a Hasguard gyda St Ismael's gyda Gorllewin Robeston i ffurfio Plwyf cyfunol newydd, yr enw i'w benderfynu yn nes ymlaen.
- Bod Plwyf Abernant yn symud o Ddeoniaeth Caerfyrddin i Ddeoniaeth Sanclêr
- Bod Plwyf Abergorlech yn cael ei ymgorffori yn Mhlwyf Cyfunol Cynwyl Gaeo gyda Llansawel a Thalyllychau. Yr enw newydd fyd Plwyf Cyfunol Cynwyl Gaeo gyda Llansawel a Thalyllychau ac Abergorlech
- Bod Plwyfi Nanhyfer a'r Beifil yn symud i Blwyf Cyfun Llandudoch a Monington. Yr enw newydd fyd Plwyf Cyfunol Llandudoch ac Eglwys Wythwr a Nanhyfer a'r Beifil.
- Bod Plwyfi Trewyddel a Meline'n symud i Blwyf Cyfun Trefdraeth gyda Cilgwyn a Dinas gyda Llanllawer. Yr enw newydd fydd Plwyf Cyfun Trefdraeth gyda Cilgwyn a Dinas gyda Llanllawer a Threwyddel a Meline.

Mae'r Pwyllgor Sefydlog yn gwahodd y Gynhadledd i adnewyddu pwerau llawn i'r Pwyllgor Sefydlog am ddeuddeg mis arall (Argymhelliad 1)

Argymhellion:

1. **Pwerau Llawn**
   Bod y Gynhadledd yn dirprwyo pwerau llawn i'r Pwyllgor Sefydlog am ddeuddeg mis arall.

2. **Cymeradwyo'r Adroddiad**
   Bod Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog yn cael ei gymeradwyo.

Parchg Paul R Mackness
Ysgrifennydd Clerigol

ADRODDIAD Y BWRDD ENWEBU

Gwelwyd nifer o newidiadau i'r Bwrdd Enwebu yn 2010/11. Yn dilyn ymddiswyddiad y Parchg Ganon Aled Griffiths cafodd y Parchg Fr Paul R Mackness ei benodi'n Ysgrifennydd y Bwrdd Enwebu. Daeth diwedd un cyfnod teirblwydd i'r Bwrdd ac etholwyd Bwrdd newydd ddaeth i rym ym mis Ionawr 2011. Mae'r Bwrdd hefyd wedi ailsefydlu'r cyfarfodydd busnes chwarterol i drafod swyddi gwag newydd, Gweithdrefnau'r Bwrdd ac ati.

Mae Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth yn cymryd rhan yn y cylch enwebu ddwy waith. Y drefn yw: Esgob, Esgobaeth, Talaith, Esgobaeth. Os bydd plwyf yn cael ei atal,gall yr Esgob benodi Offeiriad â Gofal.

Polisi'r Bwrdd Taleithiol yw dirprwyo'r trefniadau ar gyfer cyfweliadau i'r Esgobaeth. Mae aelodau Bwrdd yr Esgobaeth hefyd wedi cydweithredu â'r Bwrdd Taleithiol yn cyfweld ar gyfer Enwebiadau Taleithiol a bu'n cynorthwyo gyda phenodi'r Parchg John Bennet i Blwyf Aberteifi gyda Mwnt gyda'r Ferwig gyda Llangoedmor.

Yn 2010/11 cafodd yr enwebiadau canlynol eu gwneud gan y Bwrdd:

- Parchg Gary Powell yn Ficer Dafen
- Parchg Roger Thomas yn Ficer Llansadwrn gyda Llanwrda a Manordeilo

Ni lwyddodd y Bwrdd i benodi i:

- Blwyf Cynwyl Elfed a Newchurch a Threlech a'r Betws
- Plwyf Aberporth gyda Blaenporth gyda Betws Ifan
- Bywoliaeth Rheithorol Monkton

adeg llunio'r adroddiad hwn.

Mae'r Bwrdd yn hysbysebu Grŵp Eglwysi Maenordeifi, Plwyf Hubberston a Phlwyf Cyfunol Llanilar gyda Rhostie a Llangwyryfon gyda Llanfihangel Lledrod a Llanwnnws.

Ar hyn o bryd mae nifer o swyddi gwag a phlwyfi wedi'u hatal, yn ogystal â nifer sy'n newydd. Mae croeso i glerigwyr gysylltu â'r Ysgrifennydd Clerigol ***yn gyfrinachol*** os oes ganddynt ddiddordeb mewn unrhyw swydd wag neu un sy'n dod yn wag.

Parchg Paul R Mackness
Ysgrifennydd

BWRDD PERSONDAI

Cyfarfu'r Bwrdd Persondai bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2010.

Mae'r Gronfa Atgyweirio'n awr yn adlewyrchu'r incwm a'r gwariant sydd ynghlwm wrth gynnal a chadw ac atgyweirio cyffredinol persondai ynghyd â'r gwariant ar welliannau cyfalaf gyda'r adferiad priodol o'r Gronfa Gwelliannau. Roedd cyfanswm yr incwm am y flwyddyn ar gyfer y Gronfa Gwelliannau yn £862,094. Yn dilyn gwariant o £946,653 arweiniodd hyn at leihad ym malans y Gronfa i £272,633 ar ddiwedd y flwyddyn.

Cafodd cyfanswm o 1,483 o archebion eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn. Cafodd gwaith peintio cylchol yn costio £145,767 ei wneud ar 21 adeilad. Mae cyflwyno'r rheoliadau "gweithio ar uchder" a'r cynnydd mewn costau sgaffaldiau wedi arwain at ymestyn y cylch peintio 5 mlynedd i rhwng 6 a 7 mlynedd. Cynyddodd costau atgyweirio cyffredinol hefyd o £144,895 i £247,345.

Roedd y cynlluniau gwella canlynol yn mynd yn eu blaenau a/neu wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn:

- Wedi cwblhau:
  - Estyniad i'r gegin yn Ystrad Aeron/Felin-fach
  - Estyniad cegin/ystafell wely yn Abergwili
  - Stydi newydd yng Ngorslas
  - Estyniad i'r gegin ym Mhenparcau
- Yn cael ei wneud:
  - Estyniad i'r stydi yng Nglan-y-Fferi
  - Gwella mynediad yn Barn Street, Hwlffordd
- Gwelliannau wedi'u cymeradwyo yn aros am gyllid:
  - Estyniad i'r stydi ym Maenclochog
  - Estyniad i'r stydi yn Nhycroes
  - Estyniad i'r stydi yn Ninbych y Pysgod
  - Estyniad i'r stydi yn Arberth
  - Tŷ newydd yn Llandeilo
  - Garnant (ficerdy newydd arfaethedig)
  - Llanpumsaint (ficerdy newydd arfaethedig)

Yn gynwysedig yng ngwariant y flwyddyn oedd y rhaglen cynnal a chadw arfaethedig i lanhau cafnau a pheipiau glaw,gwasanaethu cyfarpar nwy ac olew ac archwiliad gosodiadau trydan sy'n digwydd bob pum mlynedd.

Aeth y gwaith o osod canfodyddion Carbon Monocsid ym mhob eiddo yn ei flaen o fewn y rhaglen dreigl 4 mlynedd y cytunwyd arni. Mae'r rhaglen gosod larymau tresmaswyr wedi ei chwblhau bellach gyda larwm wedi ei osod ym mhob eiddo.

Cafodd eiddo newydd yn Nantgaredig ei brynu'n gynnar yn 2010. Cafodd eiddo newydd ei adeiladu a'i gwblhau'n gynnar yn 2011 yn Llanbedr Pont Steffan ac mae persondy newydd yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd yn Llangwm.

Yn ystod y flwyddyn cafodd yr eiddo canlynol eu rhoi ar y farchnad a chwblhawyd y gwerthiant: Gerddi Knoll, Caerfyrddin a Phontargothi. Roedd yr hen bersondy yn Llanddewi Brefi yn dal heb ei werthu ar ddiwedd y flwyddyn, ond cafodd ei werthu mewn ocsiwn yn 2011. Cytunwyd hefyd y byddai'r eiddo canlynol yn cael eu rhoi ar y farchnad yn ystod y deuddeg mis nesaf: Garnant, Peniel, Llanbedr Pont Steffan: Garthowen a Llanbedr Pont Steffan: Fairfield

Yn unol â pholisi'r Bwrdd, cafodd yr eiddo canlynol eu gosod ar rent: Herbrandston, Dafen, St Iago, Llangeitho, Tŷ'r Curad yn Llandeilo, Talyllychau, Llanhuadain, Uzmaston, Pont-iets, Ciliau Aeron, Brechfa, Llanelli: Stryd Coldstream a Llanilar.

Dymuna'r Bwrdd ddiolch i'r Clerigwyr am eu hamynedd a'u cydweithrediad wrth i waith gael ei wneud yn eu cartrefi.

Mrs Val Hockey
Ysgrifennydd yr Esgobaeth

PWYLLGOR EGLWYSI A BUGEILIOL

Mae'r Cadeirydd, yr Hybarch Ddr John Holdsworth wedi ymddiswyddo yn dilyn ei benodiad yn Archddiacon Cyprus a'r Gwlff. Mae'r Hybarch Keith Smalldon, Archddiacon newydd Tyddewi wedi cael ei benodi'n Gadeirydd. Ymunodd y Parchg Paul Mackness â'r pwyllgor fel Ysgrifennydd Clerigol. Mae Mrs Pat Barker wedi ei phenodi'n Gynrychiolydd Lleyg dros Dyddewi.

Mae'r Pwyllgor yn dal i gyflawni ei swyddogaeth fugeiliol yn ogystal ag ystyried rhaglenni gwariant cyfalaf.

Ffurflenni Ymholiadau'r Pwyllgor Eglwysi a Bugeiliol
Gofynnir i blwyfi ystyried unrhyw raglenni gwariant cyfalaf arfaethedig drwy ymgynghori yn y lle cyntaf gyda'u Harchddiacon a thrwy lenwi Ffurflen Ymholiadau "Mentro mewn Cenhadaeth" i'r Pwyllgor ei hystyried.

Grantiau - Cronfa Treftadaeth y Loteri
Mae pob cais yn cael ei drafod gan y Pwyllgor cyn cael ei gyflwyno i'r Corff Cynrychioliadol i'w gymeradwyo cyn cael ei ystyried gan yr HLF.

Grantiau Trwsio Eglwysi'r Corff Cynrychioliadol
Caiff pob cais ei drafod gan y pwyllgor cyn cael ei anfon at y Corff Cynrychioliadol i'w ystyried.

Eglwysi'n Cau
Mae nifer o blwyfi yn yr Esgobaeth wedi gwneud cais i gau rhai o'r eglwysi yn eu plwyfi, ac mae'r prosesau'n mynd yn eu blaenau. Mae St Alban's, Furnace Mission a St Johns ym Mywoliaeth Rheithorol Llanelli wedi cael eu datgan yn segur.

Adroddiad ar Glerigwyr sy'n Siarad Cymraeg
Mae'r Parchg Ganon Aled Williams wedi cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Esgob. Aelodau'r grŵp yw'r Parchg Ganghellor Dr Patrick Thomas, Parchg Ganon Dorrien Davies, Parchg Philip W. Davies, Mrs Jean Voyle Williams, Mrs Elaine Morgan, Mr Adrian Morgan ac mae wedi cwrdd ddwy waith.

Mae 46 o eglwysi yn yr Esgobaeth yn cynnal gwasanaethau yn Saesneg yn unig, Mae 81% o'r eglwysi'n ddwyieithog, Mae 19% yn uniaith Saesneg. Amlygodd yr adroddiad yr heriau sy'n wynebu'r Esgobaeth gyda darparu Gweinidogaeth yn y Gymraeg.

Daeth yr Adroddiad i'r casgliadau canlynol:

- Dylid cynnal arolwg ar sefyllfa ieithyddol pob archddiaconiaeth.
  (Adroddwyd fod hyn eisoes wedi'i gwblhau ar lefel Daleithiol ac y dylid cyrchu hwnnw)
- Nid yw addysgu Cymraeg yn flaenoriaeth yng Ngholeg St Michael's.
  (Mae comisiwn Taleithiol wedi'i sefydlu i edrych ar hyn)
- Mae angen gwneud mwy i sicrhau fod gwasanaethau Cymraeg ar gael lle mae galw amdanynt
- Dylai Deoniaid Ardal fod yn ddwyieithog mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad
- Dylid penodi mentoriaid i glerigwyr sy'n dysgu Cymraeg
- Dylid paratoi ordinandiaid ar gyfer Gweinidogaeth mewn Esgobaeth ddwyieithog

Mrs Gaynor Ford
Ysgrifennydd

CYNGOR CENHADAETH A GWEINIDOGAETH YR ESGOBAETH (DCMM)

Mae'r DCMM yn gweithio i gydlynu amrywiol agweddau cenhadaeth, gweinidogaeth a thystiolaeth yr Eglwys yn yr Esgobaeth. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r timoedd sy'n rhan ohono.

Mae'r DCMM wedi cwrdd ddwywaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Prif fusnes y cyfarfodydd yw ystyried ac ymateb i adroddiadau gan y gwahanol dimau yn yr Esgobaeth. Wrth wneud hyn mae'r cyngor yn fforwm pwysig ar gyfer cyfathrebu ar draws y timau fel bod eu gwaith wedi'i gydlynu, yn ogystal â bod wedi'i gyfeirio, ei gefnogi, ei annog a'i herio. Yn ogystal â hyn gall y cyngor gynnig a thrafod materion o bwys i'r Esgobaeth gyfan.

Mae'r DCMM wedi bod yn canolbwyntio'n neilltuol ar ddatblygu cyfeiriad yr Esgobaeth ac mae wedi cyfrannu tuag at gynllunio'r ymweliadau i'r deoniaethau ar y pum nod cenhadol yn gynharach eleni. Dyma'r fforwm lle mae gwahanol ddiddordebau a gweinidogaethau'r Esgobaeth yn cael eu trafod ac mae ganddo le hanfodol yn ein gwaith a'n cenhadaeth gyda'n gilydd.

Parchg Richard S Wood
Ysgrifennydd

TÎM PLANT

Swyddog Plant: swydd wag

Yn absenoldeb Swyddog Plant i'r Esgobaeth, canolbwyntiodd y tîm ar Archddiaconiaeth Ceredigion, lle mae'n cryfderau. Dangosodd arolwg y Tîm o waith plant yn yr Archddiaconiaeth fod gweithwyr plant eisiau syniadau newydd, strategaethau i ddelio gydag ystod oedran eang, cymorth gyda dwyieithrwydd, a mwy o wybodaeth am Messy Church. Er mwyn dechrau ar y gwaith o gwrdd â'r angen hwn, trefnodd y Tîm:

a) Noson, "*Bwyd ar gyfer y Daith*", lle cyfarfu gweithwyr plant yn Aberaeron i rannu syniadau a strategaethau ar gyfer y Pasg/Diolchgarwch, ac i drafod rhaglen i'r dyfodol o gefnogaeth, anogaeth a gweddi.

b) Sesiynau hyfforddi i weithwyr plant. Cafodd y rhain eu rhedeg gan Andy Hughes a Greg Leavers o Urban Saints ym mis Chwefror: Nos Wener yn Aberaeron a bore Sadwrn yn Hakin, Aberdaugleddau. Daeth tua 30 i gymryd rhan yn y ddau gyfarfod. Roedden nhw'n rhagorol ac yn ysbrydoledig, gydag amrywiaeth eang o syniadau am arfer da. Yn anffodus, nid oedd neb yn Sir Gaerfyrddin wedi mynegi diddordeb mewn cynnal sesiwn o'r fath ar y prynhawn Sadwrn. Rydym yn trefnu iddyn nhw ddod eto yn Chwefror/Mawrth 2012. Rydym yn chwilio am leoliadau yn Sir Benfro (bore Sadwrn), Ceredigion (nos Wener neu brynhawn Sadwrn) a Sir Gaerfyrddin (nos Wener neu brynhawn Sadwrn). Rhowch wybod i'r tîm os hoffech groesawu sesiwn i'ch lleoliad chi.

c) Hyfforddiant ar "*Messy Church*". Dyma ymdrech un eglwys i fod yn eglwys i deuluoedd sydd am gwrdd â Iesu, am berthyn i'w heglwys leol ac am ddwyn eu plant i fyny yn Gristnogion ond sy'n methu ymdopi â gwasanaethau bore Sul traddodiadol mewn eglwysi: cyfnod unwaith y mis o greadigedd, addoliad a bwyta gyda'i gilydd. Mae Lucy Moore, Mrs Messy Church ei hun, yn dod i'r Esgobaeth i'n llenwi â brwdfrydedd, i'n helpu i gael gweledigaeth ar gyfer ein sefyllfaoedd ein hunain, ac i ddangos i ni fod y sgiliau a'r adnoddau gennym i wneud hyn. Mae Lucy'n siaradwr ac yn ymarferwr ysbrydoledig. Cynhelir yr hyfforddiant ddydd Sadwrn, 5ed Tachwedd 2011, rhwng 10am a 3.30pm yn y Model School, Caerfyrddin.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, buom hefyd yn gweithio ar:

a) Penodiad hir-ddisgwyliedig Swyddog Plant a Ieuenctid i'r Esgobaeth.
b) Digwyddiad i'r Teulu yn yr Esgobaeth.
c) Ffyrdd o rannu arfer a syniadau da.
ch) Dulliau o gyfathrebu'n uniongyrchol gyda gweithwyr plant, er mwyn sicrhau nad yw'r wybodaeth yn mynd yn "sownd" gyda'r periglor.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'n cryfder yng Ngheredigion wedi lleihau ond mae ambell un arall wedi ymuno â'r tîm (y rhai â * isod). Mae'r tîm yn cynnwys:
Ceredigion: Christine Newman yw'r ysgrifennydd a bu'n cynrychioli'r Esgobaeth mewn Digwyddiadau Plant yn genedlaethol; Sue Fletcher (sy'n ein helpu i gysylltu â Phlant Dewi).
Sir Benfro: Parchg Jane Goupillon, Parchg Alan Chadwick, Abby Reid*
Sir Gaerfyrddin: Glenys Payne (sy'n parhau gyda'i hymglymiad trwm gyda GFS). Row Robinson*, Naomi Wood.

Byddwn yn gweld colli'r Parchg Dyfrig Lloyd yn fawr iawn, nid yn unig am ei ymrwymiad a'i syniadau ond hefyd am ei ddwyieithrwydd. Mae'n rhaid bod siaradwyr Cymraeg sy'n rhannu consyrn am waith plant, a byddai'n wych pe gallen nhw helpu'r Esgobaeth yn y gwaith o adeiladu Teyrnas Dduw ymysg plant a theuluoedd.

Revd Alan Chadwick
Cadeirydd

TÏM CYFATHREBU

Eleni gadawodd yr Hybarch Ddr John Holdsworth ei swydd fel Cadeirydd y Tîm Cyfathrebu. Roedd ffarwelio ag ef yng nghyfarfod olaf 2010 yn gyfle i edrych yn ôl dros y blynyddoedd diwethaf a chydnabod sut yr oedd gwaith y Tîm wedi aeddfedu yn y cyfnod hwnnw, yn enwedig yn nefnyddioldeb cynyddol *Pobl Dewi* yn yr Esgobaeth. Gadawodd y Parchg Paul Mackness, Ysgrifennydd y tîm hefyd i ymgymryd â chyfrifoldebau eraill gyda'r Parchg Shirley Rayner yn camu'n fedrus i'w esgidiau.

Bellach mae 8,000 o gopïau o *Pobl Dewi'n* cael eu cyhoeddi, ac mae'r adborth o'r plwyfi'n awgrymu fod y cyhoeddiad yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Felly rydym yn ddyledus iawn fel Esgobaeth i waith caled Tessa Briggs a'i thîm golygyddol. Y brif broblem sy'n wynebu *Pobl Dewi* yw dosbarthu ac mae angen i ni weithio'n galetach i wneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd pobl mewn da bryd.

Yn 2010 fe arbrofwyd gyda rhifyn arbennig maint A4 o *Pobl Dewi* i'w ddosbarthu mewn sioeau, o ganlyniad i'r sbardun a gafwyd yn sgil y cyfle yn Eisteddfod yr Urdd Llannerch Aeron. Bu'r arbrawf yn llwyddiant, ac mae rhywbeth tebyg wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer 2011.

Mae'r wefan yn rhan hanfodol o gyfathrebu'r Esgobaeth, ac mae rôl gwefeistr wedi cael ei gymryd gan Swyddog Cyfathrebu'r esgobaeth, David Hammond-Williams. Gwnaeth yr Esgobaeth gyfraniad mawr i'r wefan galwedigaethau taleithiol, dan arweiniad y Parchg Matthew Hill, a bydd hwn yn ei dro yn elfen arwyddocaol yn strategaeth alwedigaethol y Dalaith.

Mae'r Grŵp Digwyddiadau, y Tîm Twristiaeth a'r Tîm Efengylu yn parhau i wneud eu gwaith fel rhan o'r Tîm Cyfathrebu. Mae pob un o'r grwpiau hyn yn elwa drwy gydlynu ei waith wrth fod yn rhan o'r Tîm. Am y tro cyntaf yn 2010, anogodd yr Esgobaeth blwyfi i gymryd rhan yn *Sul Nôl i'r Eglwys* (*BTCS*) ym mis Medi. Roedd yr ymateb yn amrywiol, gyda rhai plwyfi'n adrodd am ymateb sylweddol, eraill ag ychydig iawn o

ymateb. *Mae'n bosib* fod BTCS wedi cael ei roi yn y cysgod mewn rhai rhannau o'r Esgobaeth gan *Daith Gerdded Cenhadaeth Tyddewi* a ddigwyddodd o gwmpas yr un pryd, ac efallai iddo gael ei ddrysu gyda'r Diwrnod Eglwysi Agored oedd hefyd tua'r un pryd, ond mae'n bendant gwerth gwneud *BTCS* yn rhan o'n rhaglen ar gyfer 2011.

Un elfen arwyddocaol dros ben o waith y Tîm Cyfathrebu yw Blwyddlyfr yr Esgobaeth. Nid oedd modd i ni gynhyrchu Blwyddlyfr yr Esgobaeth ar gyfer 2010, yn dilyn ymddeoliad Dr David Causton fel golygydd (a diolch yn fawr iawn iddo am ei olygyddiaeth o Flwyddlyfr yr Esgobaeth dros nifer o flynyddoedd). Mae toriad wedi'n galluogi i edrych ar fformat Blwyddlyfr yr Esgobaeth ac i ystyried beth mae Esgobaethau eraill yn ei wneud ac os oes modd rhesymoli'r cronfeydd data gwaelodol. Tessa Briggs sydd wedi bod yn bennaf gyfrifol am yr adolygiad hwn o Flwyddlyfr yr Esgobaeth a dylai arwain at Flwyddlyfr mewn fformat newydd erbyn Cynhadledd yr Esgobaeth yn 2011. Byddai'r Tîm Cyfathrebu'n falch i gael eich ymateb i'r cyhoeddiad ar ei newydd wedd.

Yr Hybarch Ddr Will A Strange
Cadeirydd

TÎM ADDYSG YR ESGOBAETH

Mae'r Tîm Addysg yn cwrdd unwaith y tymor dan gadeiryddiaeth Archddiacon Aberteifi, yr Hybarch Ddr William Strange. Swyddogaeth y Tîm Addysg yw cefnogi a hyrwyddo buddiannau'r Eglwys yng Nghymru ym maes addysg yn Esgobaeth Tyddewi. Mae hefyd yn monitro beth sy'n digwydd yn ein hysgolion eglwys drwy'r adroddiad y mae'n ei dderbyn gan Gyfarwyddwr Addysg a Swyddog Ysgolion yr Esgobaeth.

Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, cafodd tair o'n hysgolion eglwys eu harolygu gan yr Arolygwyr Adran 50 a chafodd yr ysgolion eu cymeradwyo ar eu cysylltiadau clos gyda'r eglwys leol ac am safon uchel eu haddoli torfol.

Ym mis Hydref fe gawsom ddiwrnod HMS ar *Natur Unigryw Ysgol Eglwys* a daeth dros 70 at ei gilydd, gyda chynrychiolwyr o 15 o'n Hysgolion Eglwys. Roedd yn ddiwrnod diddorol iawn dan arweiniad Shahne Vickery o Esgobaeth Caerloyw. Roedd ei brwdfrydedd yn ysbrydoledig a rhoddodd nifer o awgrymiadau ar sut i wneud ein Hysgolion Eglwys yn wahanol. O ganlyniad i'r diwrnod hwn defnyddiodd llawer o ysgolion y pecynnau adnoddau e.e. *Profiad o'r Nadolig a'r Pasg* gan weithio'n agos gyda'u heglwysi Plwyf lleol. Bu dros 500 o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y prosiectau hyn.

Gan fod safleoedd daearyddol ein hysgolion yn cael eu herio ar adegau, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyflwyno Llythyr Newyddion Ysgolion Eglwys. Rydym yn cyhoeddi'r llythyr newyddion dair gwaith y flwyddyn ac rwy'n ddiolchgar i'r ysgolion am eu cyfraniadau.

Gan ein bod yn dathlu dau ganmlwyddiant y Gymdeithas Genedlaethol eleni, mae gennym gystadleuaeth baneri a dau ddisgybl o Ysgol Wirfoddol dan Gymorth Penboyr ddaeth yn fuddugol. Bydd disgyblion o'r ysgol yn cynrychioli'r Esgobaeth mewn gwasanaeth arbennig yn Abaty Westminster ar Hydref 14eg.

Mae angen diweddaru ac ehangu adeiladau ein hysgolion o bryd i'w gilydd a gall hyn achosi nifer o heriau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld newid gweinyddol i'r Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trwsio a Chynnal a Chadw Ysgolion Gwirfoddol dan Gymorth. Mae'n ymddangos fod y system newydd, gafodd ei weinyddu drwy Gyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth, wedi gweithio'n dda iawn.

Hoffai'r Tîm Addysg gydnabod y bartneriaeth sy'n bodoli rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Awdurdodau Lleol a'r Esgobaeth. O ganlyniad i'r bartneriaeth hon mae ein hysgolion wedi elwa ac maent yn dal i elwa'n fawr.

Hoffai'r Tîm Addysg ddiolch i'r Penaethiaid, Aelodau Staff, Llywodraethwyr, Clerigwyr Plwyf ac Ymwelwyr yr Esgob am y rhan bwysig y maen nhw'n ei chwarae mor barod wrth hyrwyddo'r ethos Cristnogol o fewn ein hysgolion eglwys.

Gadewch i ni barhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn i ni allu sicrhau dyfodol llwyddiannus i'n plant.

Mrs Jean Voyle Williams
Swyddog Ysgolion yr Esgobaeth

TÎM Y WEINIDOGAETH

Mae'r Tîm yn cynnwys yr Esgob, Deon y Gadeirlan, Archddiacon Tyddewi, Archddiacon Caerfyrddin ac Archddiacon Aberteifi, gyda chefnogaeth aelodau'r tîm sy'n cydlynu ac yn datblygu darpariaeth weinidogaethol o fewn yr Esgobaeth ar gyfer gweinidogion lleyg ac ordeiniedig. Y Parchg Ganon Dennis Wight, Cyfarwyddwr Cenhadaeth a Gweinidogaeth yr Esgobaeth, sy'n cadeirio'r cyfarfodydd.

Darllenwyr (Gaynor Ford, Warden Cysylltiol Darllenwyr)
Y Pwyllgor Gweithredol ar gyfer y tair blynedd 2011/2014 yw: Mrs Hazel Prothero; Mr Wyndham Gill; Miss Ruth Evans; Mrs Judith Morton a Mrs Vanesa Hope-Bell. Mae 85 o Ddarllenwyr trwyddedig yn yr Esgobaeth ac mae nifer dan Hyfforddiant, ac yn o broses o archwilio eu galwad.

Grŵp Datblygu Lleygwyr (Parchg Shirley Rayner, Ysgrifennydd):
Mae'r Grŵp Datblygu Gweinidogaeth Leyg wedi bod yn gweithio ar nifer o fentrau, mae'r cwrs Archwilio Ffydd wedi cael ei sefydlu ac mae tri Grŵp yn cyfarfod. Mae'r Parchg Rhiannon Johnson wedi cael ei phenodi'n Gydlynydd i'r cwrs hwn a fydd hefyd yn ffurfio rhan o'r hyfforddiant Darllenwyr mewn cydweithrediad â choleg St Michael. Mae cyfarfodydd Gweinidogaeth Tosturi wedi eu cynnal yn llwyddiannus iawn gyda dros 60 o bobl yn eu mynychu. Mae trefniadau ar y gweill i gychwyn y cwrs *Addas i'r Diben*.

Gweinidogaeth Hunangynhaliol / Addysg Weinidogaethol Barhaus Gychwynnol
(Parchg Paul Nash, Warden):
Mae'r AWBD yn parhau i ganolbwyntio ar Bortffolios Hyfforddiant.

CMD (Parchg J M A Griffiths, Swyddog):
Dull Enwi - Yn unol â newidiadau cyfredol Eglwys Loegr, bydd yr Esgobaethau'n rhoi'r gorau i ddefnyddio Addysg Barhaus y Weinidogaeth ac yn mabwysiadu'r term Datblygiad Parhaus y Weinidogaeth (DPW).
Dyddiau DPW - Roedd y niferoedd a fynychodd y dyddiau hyn wedi bod yn isel, ac o ganlyniad roedd yr Esgob Wyn wedi hysbysu pob clerigwr o'i gyfrifoldebau hyfforddi.
Rhaglen DPW 2011:
15 Chwefror – Parchg Ganon Joanna Udal, Nifer dda wedi mynychu a chafwyd cryn werthfawrogiad.
7 / 8 Mehefin – Parchg Ganon Jeremy Martineau, Cwrs Gweinidogaeth Aml Eglwys.
Cyfathrebu Di-drais - mae ymarferoldeb rhedeg y cwrs hwn yn cael ei adolygu.
Cynhadledd Rheoli Gwrthdaro - 2 - 4 Tachwedd, Cynhelir hwn yng Ngholeg St Michael. Uwch Staff yr Esgob a Deoniaid Ardal a chydlynydd DPW i fynychu.
Rhaglen DPW 2012 - Mae awgrymiadau eisoes wedi eu gwneud ar gyfer y rhaglen a bydd cylchlythyr yr Esgobaeth yn gwahodd rhagor o awgrymiadau.
Ysgol Glerigol 2012 – 20 - 22 Mehefin 2011, Aberystwyth

Ordinandiaid (Parchg Paul Davies, Warden)
Yn 2011 mae pedwar o bobl yn mynd i gael eu hordeinio'n Offeiriaid a dau yn Ddiaconiaid. Mae curadiaethau wedi eu trefnu ar eu cyfer.
Yn 2012 bydd pedwar o bobl yn cael eu hordeinio'n Offeiriaid a saith yn Ddiaconiaid.

Cychwynnodd pump o bobl ar hyfforddiant ym mis Medi 2010.

Galwedigaethau (Parchg Matthew Hill, Cydlynydd)
Ymgeiswyr am Ordeiniad - Mae pymtheg o bobl yn archwilio eu galwedigaethau, rhai yn Gyflogedig ac eraill yn NSM, rhai ohonynt yn siaradwyr Cymraeg.
Gwefan - Bwriedir i wefan y Dalaith fynd yn fyw ar 5ed Mehefin. Bydd y ffocws ar y Weinidogaeth Ordeiniedig. Mae cynnydd da'n cael ei wneud ar gynhyrchu gwefan Esgobaethol i hyrwyddo galwedigaethau i'r Weinidogaeth Ordeiniedig.
Strategaeth Galwedigaethau Taleithiol - Mae Tîm Strategaeth Galwedigaethau Taleithiol wedi ei ffurfio. Y Parchg Richard Wood yw cynrychiolydd yr Esgobaeth ar y tîm hwn.
Diwrnod Galwedigaethau Cyfrwng Cymraeg - Cynhelir hwn ddydd Sadwrn 8fed Mai yn Llanbedr Pont Steffan.

Mrs Gaynor Ford
Ysgrifennydd

CYNGOR CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL YR ESGOBAETH (CCCE)

Yn y flwyddyn ddiwethaf roedd cyfanswm y rhieni a'r bobl ifanc y bu *Plant Dewi'n* gweithio gyda nhw ymhell dros 2000. Nid yw nifer y plant gafodd eu cyrraedd wedi ei gofnodi ym mhob prosiect ond gwyddwn fod y Canolfannau Teulu'n cefnogi dros 600 o deuluoedd gyda 1220 o blant rhyngddynt ac yn Sir Benfro cafodd 275 o rieni gyda 523 o blant rhyngddynt gefnogaeth mewn rhianta. Mae aelodau'r tîm yn haeddu eu llongyfarch ar eu gwaith a gellir dibynnu arnynt bob amser i fynd y filltir arall i gefnogi'r teuluoedd rydym yma i'w gwasanaethu.

Rhai uchafbwyntiau o'r flwyddyn. Ym mis Mai cyflwynwyd tystysgrifau i rieni o Grwpiau Teulu am eu rhan mewn ymgyrch arloesol i atal llif cam-drin plant yn rhywiol. Cafodd cyflawniadau'r rhieni eu canmol gan y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC, mewn seremoni wobrwyo yn y Senedd. Dywedodd Donald Findlater, Prif Weithredwr yr ymgyrch *Stop It Now!* wrthynt: "*Rydych wedi ein helpu i herio'r cyhoedd i wneud eu rhan yn y frwydr yn erbyn cam-drin plant yn rhywiol, yn hytrach na gadael y cyfan i bobl broffesiynol*."

Ym mis Tachwedd cynhyrchodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei adroddiad gwerthuso terfynol ar effeithiolrwydd Cymorth a Dechrau'n Deg yng Nghymru a'u heffaith ar blant a theuluoedd. O'r holl brosiectau yng Nghymru, cafodd *Plant Dewi* ei enwi yn yr adroddiad hwn fel prosiect sy'n darparu deilliannau cadarnhaol mewn perthynas â'i waith Grwpiau Teulu ar adeiladu hunan barch.

Mae Plant Dewi'n rhoi ffydd ar waith, gan feithrin cymuned fwy cynhwysol drwy ofalu am bob plentyn a pherson ifanc, meithrin lles pob teulu a chryfhau cymunedau. Mae cariad Duw a gofal dros gymdogion yn mynd law yn llaw i siapio bywydau a chymunedau. Mae modd cael hanes cyflawn gwaith eang *Plant Dewi* - yn cynnwys Gwaith Dad, Prosiect Mobi a God4Kidz - gan Reolwr y Prosiect, Sue Fletcher, ar 01267 221551. Cydnabyddwn yn ddiolchgar yr ymddiriedaeth gafodd ei ddangos yn y Prosiect gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r tri Awdurdod Sirol, ymrwymiad parhaus y plwyfi a'r grwpiau cefnogi yng Nghaerfyrddin Cydweli a Doc Penfro yn ogystal ag unigolion a ffynonellau cyllido eraill sy'n ein galluogi i wneud y gwaith. Diolch yn fawr.

Mae Cynghorwyr Bywyd Gwledig yng Nghymru wedi canolbwyntio eu hymdrechion dros y flwyddyn ddiwethaf yn darparu hyfforddiant a dyddiau ymgynghorol i glerigwyr a phobl sy'n gweithio yng Nghefn Gwlad Cymru neu sydd â diddordeb ynddo drwy Raglen Ffocysu Gwledig yr Eglwys. Lleoliad y seminarau hyn yw'r Pafiliwn Rhyngwladol ar Faes y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd. Mae pynciau eang ac amrywiol wedi eu trafod ers mis Medi 2010 a byddant yn parhau tan fis Mawrth 2012, yn cynnwys, ymysg eraill: Gofal Bugeiliol Cymunedau a Theuluoedd Amaethyddol; Terminoleg LlCC, CAP, Glastir; yr Economi Wledig; Rôl Asiantaethau Statudol; Hunaniaeth a pherthyn i gyd-destun gwledig; Arwain a Rheoli'r Eglwys Wledig; Gwyddoniaeth, Technoleg, Mathemateg a Meddygaeth.

Mae anghenion pobl yng nghefn gwlad Cymru'n gosod heriau i'r Eglwys yng Nghymru, a nod y prosiect hwn yw rhannu gwybodaeth ac adnoddau i'n galluogi i wasanaethu cymunedau gwledig yn fwy effeithiol. Mae croeso i bawb i seminarau'r Ffocws Gwledig. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Parchg Eileen Davies, Cynghorydd Bywyd Gwledig Esgobaeth Tyddewi, 01559 384248 / 07814 272998.

Croesawodd CCCE yr SRO newydd, y Parchg David Hammon i'w swydd ym mis Ebrill 2010. Yn ystod ei fisoedd cyntaf yn ei swydd bu'n canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth am waith *Plant Dewi*, hyrwyddo gwaith CCCE ar lefel cyngor sir a cheisio cael mewnwelediad i fenter Cymdeithas Fawr y Llywodraeth. Dymunwn yn dda i David wrth iddo wella o lawdriniaeth fawr.

Yr Hybarch Alun Evans
Cadeirydd

TÎM IEUENCTID YR ESGOBAETH (DYT)

Aelodaeth

Mae aelodaeth DYT yn cynnwys dau aelod lleyg a dau glerigwr o bob un o'r tair archddiaconiaeth, gyda pheth hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer sgiliau a chyfrifoldebau penodol. Mae nifer o aelodau ar y Tîm ar hyn o bryd, gyda rhai llefydd gwag, rhai ohonynt yn y broses o gael eu llenwi. Yn y gorffennol, roedd swydd Caplan Ieuenctid yr Esgobaeth yn cael ei ystyried yn aelod ychwanegol i'r Tîm heb ei gynnwys yn y cwota clerigol ar gyfer yr archddiaconiaeth honno. Penodir tri Chaplan Ieuenctid Archddiaconaidd (AYC) i gefnogi ac i gynorthwyo Caplan Ieuenctid yr Esgobaeth, ond mae un AYC (Aberteifi) wedi symud i Esgobaeth arall yn ddiweddar ac mae ei swydd yn dal yn wag. Ers i'r Caplan Ieuenctid yr Esgobaeth diwethaf ymddiswyddo yn 2008 nid yw'r swydd wedi cael ei llenwi ond yn hytrach mae AYCau wedi bod yn cyflawni'r rôl dros dro.

Gwaith y Tîm Ieuenctid yr Esgobaeth

Am nifer o flynyddoedd, mae Tîm Ieuenctid yr Esgobaeth wedi gweithio'n bennaf i ddarparu *Gwersyll Ieuenctid* blynyddol - digwyddiad preswyl i ieuenctid y mae pobl ifanc o blwyfi yn yr Esgobaeth yn cael gwahoddiad iddo. Yn y gorffennol mae llawer wedi mynychu'r gwersyll ac mae gweithgareddau amrywiol wedi cael eu cynnal. Roedd y rhain yn amrywio o ddigwyddiadau gafodd eu cynnal yn yr Esgobaeth a'u gweithredu/trefnu gan aelodau'r DYT a chefnogwyr eraill yn yr Esgobaeth, i fynd â grwpiau o bobl ifanc i ddigwyddiadau cenedlaethol megis *Greenbelt* neu *Soul Survivor* neu i ganolfannau gweithgareddau ieuenctid. Yn ogystal â'r *Gwersyll Ieuenctid* blynyddol, mae'r DYT hefyd wedi trefnu o leiaf un digwyddiad dydd blynyddol yn yr Esgobaeth.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae hi wedi bod yn amlwg fod y nifer sy'n mynychu'r digwyddiadau ieuenctid Esgobaethol hyn wedi bod yn gostwng, gyda phobl ifanc yn

dod yn bennaf o ychydig o'r grwpiau ieuenctid mwy sy'n cael eu cynnal yn yr Esgobaeth, yn aml rhai sy'n cael eu rhedeg gan aelodau o'r DYT. Bu'n bryder nad ydyn ni'n cyrraedd llawer o bobl ifanc yr Esgobaeth ac efallai nad darparu gwersylloedd ieuenctid blynyddol yw'r ffordd orau i gwrdd ag anghenion presennol pobl ifanc.

Dros y ddwy flynedd diwethaf mae'r DYT wedi bod yn adolygu ei bwrpas a'i swyddogaeth er mwyn addasu i anghenion newidiol pobl ifanc ein Hesgobaeth ac i wasanaethu eu hanghenion ysbrydol yn y ffordd orau. I'r diben hwn rydym wedi llunio Datganiad Cenhadaeth newydd yn ddiweddar, ynghyd ag amcanion ar gyfer ein gwaith yn y dyfodol gyda phobl ifanc yn ein Hesgobaeth. Mae'r DYT yn teimlo y dylai ein rôl yn y dyfodol symud yn fwy i gyfeiriad cefnogi a helpu plwyfi a deoniaethau yn sefydlu a rhedeg mynegiannau Crist-ganolog o waith ieuenctid yn eu hardaloedd eu hunain gyda llai o waith darparu digwyddiadau wedi eu trefnu yn yr Esgobaeth y mae'n rhaid i bobl ifanc deithio i'w cyrraedd, er y gall y rhai ddigwydd o hyd.

Swyddog Datblygu Ieuenctid a Phlant yr Esgobaeth
Am nifer o flynyddoedd mae'r DYT wedi pwysleisio'r angen am Gaplan neu Swyddog Ieuenctid llawn amser ar gyfer ein Hesgobaeth, i arwain gwaith darpariaeth ieuenctid Cristnogol, gyda chefnogaeth y DYT. Rydym yn falch iawn ein bod wedi cael y cyfle dros y misoedd diwethaf i ymchwilio, gyda'r Esgob, i'r posibilrwydd o swydd newydd ar y cyd gyda'r Pwyllgor Plant, sef Swyddog Datblygu Ieuenctid a Phlant yr Esgobaeth, fyddai'n chwarae rhan allweddol yn arwain ac yn datblygu gweledigaeth newydd y DYT a gweithredu amcanion ein Datganiad Cenhadaeth. Rhagwelir y bydd y swydd hon yn cael ei hysbysebu'n gynnar yn haf 2011 gyda phenodiad i'r swydd yn digwydd mor fuan â phosibl.

Parchg Nick Cale
Cadeirydd

ADRODDIAD Y SWYDDOG RHYNG-FFYDD

I lawer o bobl, un pwrpas hollbwysig, sef dod â heddwch i'r blaned. Gall cymunedau heddychlon helpu i adeiladu heddwch yn y byd. Mae traddodiad cryf o heddwch a goddefgarwch yng Nghristnogaeth Cymru a helpodd i ffurfio ymwybyddiaeth y genedl. Mae rhinweddau o'r fath yn ganolog i bob gwir grefydd ac mae'r rhain yn rhoddion y mae modd eu rhannu gyda chymdeithas. Mae gwahaniaethau crefyddol yn cael eu bwydo gan ofn a chamddealltwriaeth ac anaml y byddant yn adlewyrchu realiti'r rhai sy'n byw gyda ffydd calon agored. Yng Ngorllewin Cymru, prin yw'r profiad o ddod ar draws pobl o grefyddau eraill, ond mae angen mawr am ymwybyddiaeth o gredoau crefyddau eraill yn y byd rhanedig hwn.

Mae gwaith rhyng-ffydd yn ei fabandod yn ein Hesgobaeth a chafodd y Swyddog Rhyng-ffydd ei benodi ym mis Hydref 2010. Gwaith rhwydweithio yw rôl y Swyddog Rhyng-ffydd ar hyn o bryd, er mwyn dysgu beth sy'n digwydd yn yr Esgobaeth ac yn y Dalaith.

Yr amcanion cyfredol yw:

- Gwneud gwaith mapio i leoli cymunedau ffydd eraill yn yr Esgobaeth.
- Datblygu a hwyluso rhanbarth rhyng-ffydd yng Ngorllewin Cymru fel cynrychiolydd rhanbarthol Cyngor Rhyng-ffydd Cymru.
- Adeiladu rhwydwaith o gysylltiadau gyda phobl o gymunedau ffydd eraill.
- Ymweld â chymunedau a sefydliadau ffydd eraill.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion rhyng-ffydd yn y plwyfi.

Mae'r Swyddog Rhyng-ffydd yn adrodd i'r DCMM ac mae'n aelod o'r Grŵp Cenhadaeth Byd ac Eciwmeniaeth sydd newydd ei ffurfio. Mae wedi mynychu Ymgynghoriad

Rhyng-ffydd Rhanbarthol yn Llanbedr Pont Steffan, dau gyfarfod o Gyngor Rhyng-ffydd Cymru yng Nghaerdydd, cyfarfod taleithiol o Swyddogion Rhyng-ffydd a Chenhadaeth Byd yn Llanelwedd, ac mae wedi cynrychioli'r Esgobaeth yn Agoriad Brenhinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin. Mae hefyd yn hwyluso *Tir Cyffredin*, grŵp rhyng-ffydd lleol yng Ngogledd Sir Benfro.

Mae cysylltiadau hefyd wedi eu creu gyda'r canlynol:

- Swyddogion Cyfle Cyfartal llywodraeth leol, sydd bellach yn gyfrifol am *Grefydd a Chred* yn Neddf Cydraddoldeb newydd 2010;
- Grŵp Cydraddoldeb Heddlu Dyfed Powys;
- Adran Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan ac Ymddiriedolaeth Alister Hardy;
- Rhyng-ffydd Sir Gaerfyrddin yn Llanelli;
- Grŵp rhyng-ffydd newydd sbon yn Llanbedr Pont Steffan .

Y gobaith yw y bydd modd adeiladu ar y gwaith cychwynnol hwn a'i ehangu dros y flwyddyn nesaf.

Parchg Don MacGregor
Swyddog Rhyng-ffydd

TÎM CENHADAETH FYD-EANG AC ECIWMENIAETH

Ailddechreuodd y Grŵp Cenhadaeth Fyd-eang ei gyfarfodydd rheolaidd yn dilyn penodi'r Parchg Ann Howells yn Gadeirydd ddechrau 2010. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod o newid, o ran personél ac o ran cyfeiriad. Rydym wedi ffarwelio â llawer o aelodau, ac wedi croesawu eraill yn eu lle.

Yn dilyn arweiniad yr Esgob, mae cylch gorchwyl y Grŵp wedi cael ei ehangu i gynnwys eciwmeniaeth. Mae'r Swyddog Rhyng-ffydd, y Parchg Don MacGregor, hefyd wedi cael ei groesawu i'r Tîm. Mae'r Tîm Cenhadaeth Fyd-eang ac Eciwmeniaeth yn y broses o archwilio ei gylch gorchwyl newydd, ac mae'n edrych am aelodau newydd, yn enwedig y rhai sydd â chalon dros eciwmeniaeth.

Mae'r Tîm wedi parhau gyda'i waith o hyrwyddo cysylltiadau rhwng ysgolion yn yr Esgobaeth ac ysgolion tramor. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r nos i bobl gyswllt y Genhadaeth Fyd-eang o'r plwyfi yn Llandeilo yn yr hydref 2010. Er gwaetha'r niferoedd isel, roedd y rhai a fynychodd wedi gwerthfawrogi'r cyfle i rannu gyda'i gilydd ac i weddïo dros genhadaeth Duw yn y byd ac i weld rhai o'r adnoddau sydd ar gael i annog eu plwyfi i gymryd mwy o ran yn y gwaith. Cynhaliwyd cyfarfod cyffelyb yng Nghapel Dewi ger Llandysul yn y Gwanwyn. Anfonwyd gwahoddiad agored i eglwysi'r ddwy ddeoniaeth agosaf, a denodd hyn well ymateb. Mae bwriad i gynnal noson arall yn Neoniaeth Penfro yn hydref 2011.

Gyda bendith yr Esgob, mae'r Tîm hefyd wedi bod yn archwilio'r posibilrwydd o gryfhau'r cysylltiad gydag Esgobaeth Bukavu yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo. Mae grŵp ar wahân wedi ei sefydlu i hwyluso'r gwaith hwn, gyda'r Parchg Ddr Jenni Annis yn Gadeirydd. Mae ei chysylltiadau gyda Bukavu, ei phrofiad a'i brwdfrydedd yn ei harfogi'n dda ar gyfer y dasg hon. Roedd yn dda gallu croesawu Esgob Cadeirlan Bukavu i'r Ysgol Glerigol y llynedd.

Byddai'r Tîm yn gwerthfawrogi eich awgrymiadau a'ch mewnbwn i'w waith. Cysylltwch â ni os gallwn eich helpu mewn unrhyw ffordd, wrth i ni i gyd geisio hyrwyddo cenhadaeth Duw yn yr Esgobaeth ac yn ein chwaer eglwysi, yma ac o gwmpas y byd.

Parchg Ann Howells
Cadeirydd

PWYLLGOR YMGYNGHOROL YR ESGOBAETH (PYE)

Cyfarfu PYE chwe gwaith. Y Gwir Barchg Jonathan Lean yw'r Cadeirydd. Ymddiswyddodd Mr Jeffrey Hughes a Mr Dave Bown. Ymunodd Mr Trefor Thorpe â PYE; mae Mr Thorpe newydd ymddeol o Cadw.

Yn ôl yr arfer, mynychodd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd y ddau gyfarfod taleithiol blynyddol o Gadeiryddion ac Ysgrifenyddion holl Bwyllgorau Ymgynghorol yr Esgobaethau. Aeth yr Ysgrifennydd hefyd i gyfarfod o Ysgrifenyddion PYE Cymru Gyfan gyda Mr Alex Glanville i drafod drafft terfynol y ffurflen galluedd newydd. Aeth nifer o aelodau i gynhadledd Mannau Addoli Hanesyddol Cymru a drefnwyd gan Ms Tina Andrew, Swyddog Treftadaeth yr Eglwys, fydd yn ddigwyddiad blynyddol o hyn ymlaen. Trefnodd Ms Tina Andrew hefyd Weithdai Gofal a Chynnal a Chadw Eglwysi ym mhob Archddiaconiaeth.

Trafodwyd cant a hanner o geisiadau am allueddau yn ystod y cyfnod hwn. Cafodd pedwar eu tynnu'n ôl, gwrthodwyd dau a chafodd naw deg eu caniatáu gan y Canghellor. Roedden nhw'n cynnwys cynnal a chadw arferol, gwaith trwsio, gwydr lliw, darparu cyfleusterau cegin a thoiledau ac ambell i ailwampio. Mae plwyfi bellach yn cymryd i ystyriaeth yr wybodaeth yn y Canllaw Gwyrdd i Blwyfi ynghyd ag ystyried Bioamrywiaeth a chynaliadwyedd. Mae gwaith sy'n gysylltiedig â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, sef gosod rampiau a chanllawiau, ynghyd â systemau sain ar gyfer y rhai trwm eu clyw, yn dal i gael ei dderbyn ynghyd â gwaith cynnal a chadw arferol. Mae dau gais wedi eu derbyn ar gyfer estyniadau i Eglwysi a threfnwyd ymgynghoriadau cynnar gyda PYE, Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Amwynderau. Roedd hyn yn golygu llenwi Ffurflen 1 Rhan 1. Derbyniodd PYE hefyd Ffurflen 1 Rhan 1 am gyngor ar ailwampio arfaethedig mewn dwy eglwys a gosod drysau allanol mewn un eglwys.

Yn dilyn cael ein hysbysu am ddiffygion a ddigwyddodd ar ôl cwblhau'r gwaith ar rai prosiectau, cafodd hyn ei drosglwyddo i Mr Alex Glanville sydd bellach wedi cynhyrchu dogfen i roi cyngor i blwyfi ar y ffordd orau i ddelio gyda'r broblem hon.

Cynhaliwyd Gwrandawiad Llys Taleithiol yn Eglwys St Edi, Llanedi a bu PYE ar rai ymweliadau safle.

Hysbysir yr Archddiacon a'r Periglor a'r Ysgrifennydd am unrhyw newidiadau o ran trefn rhestru eglwysi.

Mae ffurflenni "Datganiadau Angen ac Arwyddocâd" bellach yn cael eu hanfon gyda'r ffurflenni cais, ac mae gofyn i'r rhain gael eu cwblhau pan fydd unrhyw waith mawr neu ailwampio eglwys yn cael ei ystyried gan blwyf.

Gall siart llif archeolegol helpu ymgeiswyr wrth benderfynu a yw hyn yn fater i'w ystyried ai peidio.

Mae ein Hymgynghorydd Clychau ac Organau, Mr Michael Slaney, wedi creu cronfa ddata organau ac mae'n awr yn llunio un ar gyfer clychau.

Mae llyfrgell o lyfrau a chylchgronau wedi cael ei sefydlu dros y blynyddoedd. Mae'r rhain ar gael i'w benthyg ac mae modd cael rhestr gan yr Ysgrifennydd.

Pan fydd eglwysi'n cau neu'n segur, mae'r Pwyllgor Eglwysi a Bugeiliol yn gofyn i PYE a yw'r adeilad o unrhyw arwyddocâd pensaernïol/archeolegol ac a oes unrhyw eitemau o ddiddordeb yn yr eglwys. Cafodd y canlynol eu cyfeirio at PYE: Eglwys Furnace

Mission Llanelli, Eglwys St Alban Llanelli, Eglwys St John Llanelli, Eglwys St Justinian Llanstinan, Eglwys St Marcellus Martletwy a Chapel y Groes. Cytunodd PYE y dylai unrhyw argyfwng gael ei adrodd gyntaf i'r Archddiacon perthnasol a fydd wedyn yn cysylltu gyda'r Ysgrifennydd. Bydd yr Ysgrifennydd wedyn yn ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Canghellor a fydd yn penderfynu a ddylai'r gwaith gychwyn cyn cwblhau ffurflen gais am alluedd.

Mae gwybodaeth am waith a gofynion PYE bellach wedi cael ei greu ar wefan Esgobaeth Tyddewi (dan Adnoddau). Mae'r ffurflen gais am alluedd ar gael gan yr Ysgrifennydd.

Mrs C Louise Davies
Ysgrifennydd

ADRODDIAD CYFEILLION EGLWYS GADEIRIOL TYDDEWI

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyfeillion wedi parhau i dyfu a chyfrannu'n rhyfeddol i waith y Gadeirlan. Mae nifer yr aelodau'n dal i gynyddu, ac mae ychydig dros 1,200 o aelodau ar y funud. Mae ein chwaer fudiad yn America (www.afsdc.org) hefyd wedi sefydlu cysylltiadau mwy cadarn gydag eglwysi, sefydliadau ac unigolion sy'n dymuno cefnogi'r Gadeirlan.

Yn 2010 roedd y Cyfeillion yn falch o allu cwblhau ad-dalu'r ddyled ar Brosiect y Clwysty, gan alluogi'r Deon a'r Cabidwl i gynllunio ar gyfer y dyfodol heb bryderon na rhwystrau ariannol. Mae'r Cyfeillion hefyd wedi prynu Set Uchel Offeren Werdd ar gyfer y gadeirlan a set o ddillad Isel Offeren i'w defnyddio yng Nghapel y Forwyn. Ar ben hyn mae cyllid yn dal i gael ei roi i ailwampio'r Ganoniaeth. Mae'r Cyfeillion yn parhau i gefnogi'r Ysgoloriaethau Corawl gafodd eu sefydlu ym mis Medi 2008. O ganlyniad i benodi PA a Rheolwr Swyddfa i'r Deon ym mis Mai'r llynedd prynodd y Cyfeillion eiddo yn Nhyddewi er mwyn darparu cartref i'r aelod newydd o staff.

Ond ffocws pennaf gwaith y Cyfeillion dros y flwyddyn ddiwethaf yw'r Apêl i adnewyddu Cysegr Dewi Sant. Cafodd yr apêl ei lansio yn ystod Gŵyl y Cyfeillion yn 2010 ac mae cefnogaeth i'r prosiect hwn eisoes wedi cyrraedd £45,000. Mewn partneriaeth gyda'r Apêl hwn, mae'r Cyfeillion yn ceisio sefydlu Canolfan Addysg a Phererindod i'r Gadeirlan fydd yn galluogi gwaith allanol pellach ac yn gwireddu gweledigaeth y Deon o droi 'ymwelwyr yn bererinion'.

Cynhelir Gŵyl y Cyfeillion 2011 ar 10fed ac 11eg Medi. Y siaradwr yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fydd yr Athro Diarmaid MacCulloch o Brifysgol Rhydychen ac awdur *A History of Christianity*. Mae croeso i bawb fynychu'r Ŵyl.

Am fanylion pellach am y Cyfeillion cysylltwch â Swyddfa'r Ddeoniaeth (01437 720202) neu e-bostiwch yr Ysgrifennydd: friends@stdavidscathedral.org.uk

Parchg Harri Williams
Ysgrifennydd Mygedol

CYMDEITHAS DAI

Mae'r Gymdeithas Dai yn darparu cartrefi ar gyfer clerigwyr wedi ymddeol, gwŷr neu wragedd gweddw clerigwyr a'u dibynyddion.

Mae gan y Gymdeithas Dai bedwar fflat yn Aberystwyth ac wyth eiddo yng Nghaerfyrddin (pedwar byngalo cysylltiedig â phedwar tŷ cysylltiedig).

Cyfarfu'r Pwyllgor Rheoli ddwy waith yn ystod y flwyddyn, gyda'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal ar 27ain Ebrill 2010.

Esgob Tyddewi yw Llywydd y Gymdeithas Dai.

Cafodd y canlynol eu hethol yn aelodau o'r Gymdeithas yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol: yr Hybarch A W Evans, yr Hybarch Ddr J I Holdsworth, yr Hybarch B J H Jones, Yr Hybarch Ddr W A Strange, y Gwir Barchg D J Lean, Mrs V E Paley, Dr T T James, Mr M Presdee Jones, Mr P G V Campbell, Mr A Jenkins, Mrs S Denman, Mrs R Hayes a Mr B Stone.

Cafodd yr Hybarch B J H Jones ei ailethol yn Gadeirydd.

Ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol mae'r Hybarch Ddr J I Holdsworth wedi ymddiswyddo a Mrs V Paley wedi ymddeol fel aelodau a bydd colled fawr ar ôl eu cefnogaeth i'r Gymdeithas.

Cytunodd Mrs M Evans i ddod yn aelod n ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn parhaodd y Gymdeithas Dai gyda'i pholisi o adnewyddu ceginau a gosod cawodydd addas ar gyfer tenantiaid anabl yn lle baddonau. Cafodd y gwaith hwn gymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Pwyllgor Rheoli wedi cytuno i osod ffenestri, drysau, bondoeau ac estyll tywydd yn Ger y Llan yn ystod 2011. Bydd y gwaith hwn yn derbyn cymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Incwm gros y flwyddyn 2020 oedd £40,891 oedd ychydig yn is na'r flwyddyn gynt oherwydd eiddo gwag.

Roedd y gwariant ar adnewyddu, ailwampio a chynnal a chadw arferol yn llai na'r hyn a gyllidwyd ar ei gyfer a chanlyniad hynny oedd na ddigwyddodd y diffyg ariannol a ragwelwyd.

Roedd y gweddill ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Gwario yn £14,334 gyda'r Fantolen Ariannol yn ymddangos yn iach gyda chyfanswm asedau o £201,343 ar ddiwedd y flwyddyn.

Mrs Val Hockey
Ysgrifennydd Mygedol

UNDEB Y MAMAU

Crynodeb y Gweithgareddau

Thema 2010 oedd Perthnasoedd Go Iawn. Uchafbwynt blwyddyn 2010 oedd ymweliad y Llywydd Byd-eang, Rosemary Kempsall â'r Esgobaeth. Daeth i wasanaeth yn y Gadeirlan a bu'n cwrdd ag aelodau mewn mannau eraill ledled yr Esgobaeth. Ar ail ddiwrnod ei hymweliad bu'n annerch cyfarfod y Cyngor.

Uned Ffydd a Pholisi

Trefnwyd pedwar Encil Preswyl o dridiau yr un ar gyfer 2010, yn cynnwys Encil Tawel am y tro cyntaf. Bu hwn yn llwyddiannus felly byddwn yn cynnal un eto'r flwyddyn nesaf.
Trefnwyd Dyddiau Adnewyddu gyda niferoedd amrywiol yn mynychu.

Parhaodd Undeb y Mamau i hybu'r ymgyrch *Masnacheiddio Plentyndod* yn ystod 2010 gan annog aelodau i lobïo eu Haelodau Seneddol a'u Haelodau Cynulliad i sicrhau nad yw plant dan 16 yn cael eu peryglu gan nwyddau amhriodol.
Menter newydd i Undeb y Mamau yn yr Esgobaeth hon oedd trefnu Diwrnod y Glas ym Mhrifysgol Aberystwyth. Roedd aelodau ar gael i groesawu'r myfyrwyr gyda lluniaeth a thaflenni'n rhoi gwybodaeth leol iddynt. Mae bwriad i ymestyn hyn i golegau a phrifysgolion eraill yn yr Esgobaeth yn 2011.

Uned Gweithredu ac Estyn Allan, ***Gwyliau Gadael Popeth (AFIA - Away From it All)***
Cafodd un ar ddeg o wyliau eu dyrannu i deuluoedd yn 2010. Diolch i bawb sy'n cefnogi'r prosiect hwn drwy eu cefnogaeth ariannol. Rydym yn ddiolchgar iawn i Blwyf Dinbych-y-Pysgod am eu cefnogaeth barhaus ac i Heather Jenkins sy'n cydlynu popeth.
Roedd Chwarae Duwiol yn brosiect newydd i'r Esgobaeth eleni. Cafwyd cyflwyniadau *Chwarae Duwiol* gan Heather Witt, Cydlynydd Gweithredu ac Estyn Allan, yn y Gadeirlan yn ystod tymor y gwyliau haf. Bu'r rhain yn llwyddiannus iawn a gofynnwyd iddi barhau ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn yn 2011.

Tramor
Mae'r Esgobaeth yn parhau gyda'i gysylltiadau, gan eu cofio yn enwedig ym mis Gorffennaf, sef cyfnod y *Don Weddi*.
Mae Amelia Gardner, cynrychiolydd cysylltiadau ar y pwyllgor, yn ceisio hyrwyddo cysylltiadau cangen i gangen. Mae ein cyfeillgarwch gyda Cashel ac Ossary yn Iwerddon yn parhau.

Uned Farchnata
Bu 2010 yn flwyddyn llawn digwyddiadau a gwelwyd y byrddau arddangos mewn sawl rhan o'r Esgobaeth. Cafodd arddangosion eu dangos yn Eisteddfod yr Urdd ac yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol oedd yn dathlu ei degfed pen-blwydd, ac a gysylltodd hynny â 10fed pen-blwydd ein prosiect llythrennedd.
Jean Oliver, Cydlynydd yr Uned Farchnata, yw ein cynrychiolydd ar grŵp Cenhadaeth Fyd-eang yr Esgobaeth. Dywedodd un aelod o Undeb y Mamau wrthym am ei chysylltiadau â'r Congo a chyfraniad gwerthfawr Undeb y Mamau.

Uned Cyllid a Gwasanaethau Canolog
Cofnodwyd 1,747 o aelodau yn Undeb y Mamau yn 2010, gyda 24 o aelodau Esgobaethol.
Tristwch yw gorfod cyhoeddi bod 5 cangen wedi cau eleni, gydag un gangen yn mynd yn ddi-rym ac mae aelodau'r gangen honno wedi mynd yn Aelodau Esgobaethol. Dylai Undeb y Mamau chwarae rhan hanfodol ym mywyd ein cymunedau, fel y gwna'r gyfeillach.

Gan gadw mewn cof y sefyllfa economaidd, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno i gynnydd o 50c yn nhâl aelodaeth yr aelodau sy'n mynd i Dŷ Mary Sumner (MSH); nid oes cynnydd yng nghyfraniadau aelodau i redeg yr Esgobaeth. *Wheels Appeal* - Cytunodd yr ymddiriedolwyr i anfon £2,000 ar unwaith at MSH tuag at yr apêl hon.

Hyfforddiant – Cynhaliwyd dau ddigwyddiad arall yn 2010. Er mai bychan oedd y niferoedd roedd yn ddefnyddiol i'r rhai a fynychodd.

MUe - blwyddyn dda arall i'r gwerthiant. Byddwn yn derbyn cymhorthdal cysylltiedig â throsiant gan MSH.

Mrs Ann Eirwen Gill
Llywydd yr Esgobaeth

RHEOLAU SEFYDLOG CYNHADLEDD ESGOBAETH TYDDEWI

1 Bydd pob un o gyfarfodydd y Gynhadledd yn agor â gweddi.

2 Pan fydd y Llywydd yn y Gadair, ni chaiff yr un aelod sefyll, ac eithrio er mwyn annerch y Cadeirydd.

3 Gall y Cadeirydd, er ei fod yn bresennol yn y Gynhadledd, benodi aelod arall o'r Gynhadledd i gadeirio'r Gynhadledd yn ei le.

4 Pan fydd dau aelod neu ragor yn codi i annerch y Cadeirydd ar yr un pryd, y Llywydd fydd yn penderfynu pa un ohonynt fydd yn cael siarad yn gyntaf.

5 (a) Ni fydd areithiau unrhyw gynigydd nac eilydd i gynnig yn hwy na deng munud. Gall y cynigydd hawlio pum munud ychwanegol er mwyn ymateb.

(b) Ni fydd areithiau'n hwy na phum munud.

(c) Gall y Llywydd, gyda chaniatâd y Cyfarfod, ymestyn yr amser a ganiateir ar gyfer araith.

(ch) Ni fydd yr adran hon yn berthnasol yn ystod Anerchiad y Llywydd.

6 Ac eithrio hawl y cynigydd i ymateb, ni all aelod siarad fwy nag unwaith ar yr un mater, ac eithrio i gynnig esboniad neu ar bwynt o drefn.

7 Pryd bynnag y bydd y Llywydd yn codi yn ystod trafodaeth, rhaid i unrhyw aelod sydd naill ai yn siarad, neu yn disgwyl siarad, yn eistedd ar unwaith.

8 Os bydd 30 aelod neu fwy yn codi ar eu traed yn ystod dadl i fynnu pleidlais, fe fydd y Llywydd yn gosod y cynnig i'r Cyfarfod er mwyn penderfynu ar hynny drwy godi dwylo.

9 Os yw'r Cyfarfod yn penderfynu o blaid hyn, bydd y Cadeirydd yn rhoi hawl i'r cynigydd i ymateb yn gyntaf, ac yna fe gynhelir pleidlais ar unwaith.

10 Trafodir y materion ar y Papur Agenda yn unig. Bydd yr Agenda wedi ei anfon at bob aelod o'r Gynhadledd, ynghyd â'r rhybudd o gyfarfod a'r Adroddiadau, o leiaf 14 diwrnod cyn y cyfarfod.

11 (a) Rhaid anfon unrhyw gwestiynau i'w hateb ac unrhyw gynnig y mae aelodau yn dymuno'i gyflwyno at yr Ysgrifennydd fel ei fod yn ei dderbyn o leiaf saith diwrnod cyn y cyfarfod.

(b) Os yw unrhyw aelod yn bwriadu cyflwyno cynnig, ac eithrio mewn cyfarfod arbennig, rhaid ei anfon at yr Ysgrifennydd Lleyg mewn da bryd i'w ystyried gan aelodau'r Pwyllgor Sefydlog yn eu cyfarfod a gynhelir cyn y Gynhadledd.

12 Mewn cyfarfod nad yw'n Gyfarfod Arbennig, gallai'r Llywydd, yn ôl ei ddoethineb, ganiatáu cynnwys busnes o natur arferol sydd heb ei gynnwys ar yr Agenda.

13 Rhaid cyflwyno pob gwelliant yn ysgrifenedig ac wedi ei lofnodi gan y cynigydd; os yw'n bosibl, dylid ei roi yn llaw'r ysgrifenyddion cyn y cyfarfod.

14 Ni chaniateir gwelliant i welliant.

15 (a) Nid oes rhaid darllen cynnig sydd eisoes wedi'i argraffu ar yr agenda cyn ei roi gerbron.

(b) Rhaid darllen pob cynnig neu welliant arall yn union cyn pleidleisio ar y gwelliant neu'r cynnig hwnnw.

16 Pan fydd pleidlais, penodir cyfrifwyr i Urdd y Clerigwyr ac i Urdd y Lleygwyr gan y Llywydd neu'r Cadeirydd.

17 Rhwng cyfarfodydd, gall y Pwyllgor sefydlog weithredu ar ran y Gynhadledd Esgobaethol mewn unrhyw achos a ystyrir yn un brys gan Esgob yr Esgobaeth, ar yr amod bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Gynhadledd.

18 Gall aelod gyfrannu yn Saesneg neu yn Gymraeg.

19 Cedwir Cofrestr Presenoldeb.

20 Nid ystyrir cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn gynnig dilys, oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol o blaid hynny.

21 Rhaid i'r Rheolau Sefydlog hyn gael eu hargraffu a'u dosbarthu gydag Agenda pob cyfarfod o'r Gynhadledd.